***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 Rhif 909 (Cy.92)

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

## Gorchymyn Sbwriel a Baeddu gan Gwn (Cosb Benodedig) (Cymru) 2004

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *24 Mawrth 2004* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Ebrill 2004* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 88(7) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990(**1**), a chan y ddarpariaeth honno fel y'i cymhwysir gan adran 4(2) o Ddeddf Cwn (Baeddu Tir) 1996(**2**), sef y pwerau sydd bellach yn arferadwy gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â Chymru(**3**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

### Enwi, cychwyn, rhychwantu a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Sbwriel a Baeddu gan Gŵn (Cosb Benodedig) (Cymru) 2004 a daw i rym ar 1 Ebrill 2004.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn rhychwantu Cymru a Lloegr yn unig ac mae'n gymwys mewn perthynas â Chymru'n unig.

### Swm y gosb benodedig

**2.** Yn adran 88(6) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (sy'n pennu'r gosb benodol am adael sbwriel ac a gymhwysir yn ogystal gan adran 4(2) o Ddeddf Cŵ n (Baeddu Tir) 1996)—

(a) ar ôl y swm a bennwyd ar gyfer Lloegr mewnosoder "or, in Wales, £75", a

(b) diddymir drwy hyn unrhyw gyfeiriad at £25 sy'n goroesi.

### Dirymu

**3.**—(1) Dirymir Gorchymyn Sbwriel (Cosb Benodedig) 1996(**4**) mewn perthynas â Chymru.

(**1**) 1990 p.43.
(**2**) 1996 p.20.
(**3**) Mae pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, wedi'u trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru: gweler Erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo.
(**4**) O.S. 1996/3055.

(2) Dirymir Erthygl 3 o Orchymyn Baeddu gan Gŵ n (Cosbau Penodedig) 1996(**5**) (swm y gosb benodedig) mewn perthynas â Chymru.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**6**)

*John Marek*

24 Mawrth 2004

Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**5**) O.S. 1996/2763.

(**6**) 1998 p. 38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae adran 88 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn darparu y caiff rhywun dalu cosb benodedig er mwyn ei ryddhau ei hun o fod yn agored i'w gollfarnu am y tramgwydd o adael sbwriel o dan adran 87 o'r Ddeddf honno.

Mae Adran 4 o Ddeddf Cŵ n (Baeddu Tir) 1996 yn darparu y caiff rhywun dalu cosb benodedig er mwyn ei ryddhau ei hun o fod yn agored i'w gollfarnu am y tramgwydd o fethu â chael gwared ar faw cŵ n o dan adran 3 o'r Ddeddf honno, ac mae'n cymhwyso darpariaethau adran 88 (2)–(8) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd.

Mae'r Gorchymyn hwn, sy'n gymwys i Gymru'n unig, yn cynyddu'r gosb benodedig am y tramgwyddau hyn ill dau, sef y tramgwydd o adael sbwriel a'r tramgwydd o faeddu gan gŵ n, o £25 i £75.